



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Morfa Nefyn
Canolfan Y Pentref
Lôn Isaf
Morfa Nefyn
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6BW**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

gan

**Nicholas Jones
Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Morfa Nefyn, sydd wedi ei lleoli yng 'Nghanolfan Y Pentref' Morfa Nefyn, ger Pwllheli, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae ar agor am bedwar bore'r wythnos ac mae gan y lleoliad ddau aelod o staff llawn amser ac un myfyriwr.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 20 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd a hanner i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd pedwar plentyn, sy'n cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae lleiafrif yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Medi 2015. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2013. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Mehefin 2010.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu'n cael eu cynllunio'n bwrpasol
- addysgu effeithiol yn gwella safonau a lles y plant
- gofal diwyd yn darparu cefnogaeth gadarn i'r plant
- amgylchedd dysgu tu mewn i'r adeilad yn cymhell pob plentyn i wneud eu gorau
- perthynas bositif iawn rhwng oedolion a phlant yn cefnogi'r dysgu'n dda
- staff yn cydweithio'n effeithlon

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cyfeiriad strategol yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n effeithiol
- systemau hunanarfarnu'n arferion rheolaidd, sy'n cefnogi'r lleoliad yn bwrpasol
- agweddau cadarnhaol gan yr holl staff tuag at wella eu haddysgu drwy hyfforddiant da
- cysylltiadau gyda'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn cael eu defnyddio'n gyson a'n synhwyrol
- yr arweinydd a'r staff yn weithgar iawn yng ngwaith dyddiol y lleoliad, sy'n herio'r plant yn llwyddiannus
- perthynas gadarnhaol iawn gyda'r ysgol

Argymhellion

- A1 Darparu gwell cyfleoedd i blant ymweld a dysgu am y gymuned leol
- A2 Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson
- A3 Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

**Dim yn
berthnasol**

Safonau: Dim yn berthnasol

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Lles: Dim yn berthnasol

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol ar gyfer plant ar draws pob maes dysgu. Mae'r cynllunio'n bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r staff yn trafod sut i gynllunio'r cwricwlwm a pharatoi gweithgareddau'n ddyddiol. Felly, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol yr holl blant. Mae'r cynllunio'n targedu anghenion pob plentyn yn synhwyrol ac mae'r staff yn herio'r plant yn bwrpasol i gyflawni ar eu gorau. Mae'r cynllunio o dasgau ffocws yn darparu parhad, dilyniant a her gyson ar gyfer pob un plentyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn gydlynol. Mae'n ategu at brofiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae tasgau ysgrifennu cynnar a gweithgareddau rhifydddeg pen yn ysgogi'r plant yn dda. Maent yn effeithio safonau'n llwyddiannus ym mhob maes dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gryf ac mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r cyfrifiadur, llechen a chyfarpar technolegol yn dda.

Mae'r staff yn defnyddio'r amgylchedd dan do yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd, sy'n datblygu eu medrau meddwl annibynnol yn effeithiol. Er enghraifft, trwy beintio, arbrofi â swigod, creu cestyll â thywod a chwarae rôl yn y gegin.

Nid yw'r defnydd o'r ardal allanol yn effeithiol. Nid oes her i blant tu allan am fod diffyg cyfleusterau ac adnoddau yn perthyn i'r ganolfan. Fodd bynnag, mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddawnsio tu mewn i'r adeilad a defnyddio'r parc lleol yn achlysurol i gwblhau gweithgareddau corfforol.

Mae plant yn ymweld â lleoedd y tu allan i'r lleoliad fel yr ysgol leol a'r arfordir. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gynllunio'n gyson, felly nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am eu cymuned. Er hynny, mae'r plant yn dysgu'n bwrpasol oddi wrth bobl sy'n ymweld â'r lleoliad fel doctor, nyrs a swyddogion y badau achub.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarn i blant i ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maent yn dathlu ac yn dysgu'n llwyddiannus am wyliau Cymru fel Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Hefyd, maent yn ymchwilio a thrafod yn ystyrlon am ddiwylliannau eraill, fel Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda'r plant yn y Gymraeg.

Addysgu: Da

Mae'r holl staff yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae disgwyliadau uchel ganddynt ar gyfer yr holl blant ac maent yn herio'r plant yn gyson ym mhob tasg ffocws. Mae'r arweinydd a'r staff â chydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u harwain gan oedolion. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol mewn gweithgareddau a chwarae'r plant i ysgogi a chymell y plant. Mae pob aelod o staff yn bositif iawn wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn drwy gydol y sesiwn.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd. Mae'r holl staff yn weithredol ac maent yn deall y pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad ymarferol.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol. Maent yn fodolau iaith da iawn eu hunain ac yn darparu amgylchedd cyffrous y tu mewn i'r adeilad. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd. Maent yn defnyddio cwestiynu'n effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Cryfder yn y maes yma yw parodrwydd y staff i gael y plant i werthfawrogi eu gwaith eu hun a gwaith plant eraill yn rheolaidd.

Mae'r staff yn cynnwys plant wrth asesu eu dysgu eu hunain ac yn trafod yn synhwyrol â'r plant yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Ar y cyfan, mae'r staff yn asesu i dargedu'r camau nesaf yn dysgu'r plant yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Yr arweinydd sy'n cofnodi arsylwadau ac asesiadau i fesur cynnydd plant mewn ei chofnod personol hi ac mewn llyfryn cynnydd pob un plentyn. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r staff yn defnyddio

cymeriadau fel arth a chi yn synhwyrol i gysylltu â'r cartref ac i ganolbwyntio ar foesau unigolion ac i ystyried teimladau eraill.

Felly, maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerthfawr ar gael i blant fyfyrion, trafod teimladau, dweud diolch a gweddio'n ddyddiol. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn gwrtais wrth fwyta ffrwythau ac yfed llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r plant yn ailgylchu papur, cardbord a photeli plastig ac yn compostio bwyd yng ngardd un o'r staff. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan y staff cymwysterau addas a phrofiad helaeth ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae arbenigedd staff yn cael ei ddefnyddio'n dda wrth addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drws allanol ar glo a dim ond aelod o staff sy'n ei agor. Ni all unrhyw un ddod mewn a ni all unrhyw blentyn adael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i blant cael eu casglu o'r cyntedd. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae'r lleoliad yn nodi'n effeithiol anghenion dysgu plant pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant â chymorth ychwanegol yn dda. Mae'r staff yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol pan fo'r angen yn codi. Yr arweinydd yw'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol i gefnogi plant.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r cyfarpar. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol ac amrywiol tu mewn i'r adeilad.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos positif trwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd sy'n cael ei fabwysiadu gan y staff. Mae pwyslais clir gan bawb ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r staff yn cyflawni hyn trwy ddefnyddio storïau penodol o Affrica a thrwy gymeriadau gwahanol fel arth, sy'n mynd adref gyda phob plentyn yn eu tro.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus tu mewn i'r adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Anogir y plant yn gyson i symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd dysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae'r adnoddau'n hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o

gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Caiff adnoddau eu rhannu'n effeithiol rhwng gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Nid oes ardal allanol effeithiol yn bodoli oherwydd diffyg cyfleusterau'r ganolfan. Mae'r staff yn defnyddio'r parc gerllaw yn achlysurol i hybu datblygiad corfforol y plant. Mae cyfleoedd priodol ar gael i blant ofalu am blanhigion mewn potiau. Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae'r arweinydd yn rheoli'r addysgu a'r dysgu'n dda ac mae disgwyliau'r holl staff yn uchel. Mae'r arweinyddiaeth yn sicrhau fod deilliannau ar gyfer y plant yn dda.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n sicrhau bod staff yn deall eu rolau'n llawn ac maent yn cydweithio'n ddiwyd fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn effeithiol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd y staff. Mae'r arweinyddiaeth ofalgar yn cymhell y staff tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r arweinydd, staff a'r pwyllgor rheoli'n cynllunio'n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant tu mewn i'r adeilad.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i greu gwelliannau fel y ddarpariaeth o gyfarpar technoleg gwybodaeth. Mae ganddynt ffocws clir ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol. Mae blaenoriaethau clir ar gyfer gwella yn cael eu nodi drwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae prosesau cyson a gweithredol yn sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r polisiâu yn weithredol ac mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r hunanarfarnu'n cymryd ystyriaeth bwrpasol o farn plant, eu rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn o fudd i ddatblygiad y lleoliad. Gall y pwyllgor rheoli a'r arweinydd ddangos yn glir sut maent wedi gwella'r ddarpariaeth dros amser, trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill.

Mae'r holl staff yn wybodus iawn am waith cyfredol y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Cyflawnir hyn trwy gydweithio'n effeithiol a'n ddyddiol. Mae'r arweinydd yn asesu'n gydwydol ac mae gweddill y staff yn rhannu syniadau'n synhwyrol. Mae'r pwyllgor rheoli'n defnyddio'r cyllid yn effeithlon ar gyfer adnoddau a staffio llwyddiannus.

Mae'r meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod yn gyson dda fel yr angen i wella cyfleoedd i blant yn yr awyr agored. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n cymryd camau i gynnal arferion effeithiol a rhoi newid ar waith yn llwyddiannus. Mae cysylltiadau clir rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy'n ffocysu ar welliannau yn y lleoliad. Felly, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy holl waith y lleoliad.

Mae'r staff yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent newydd fabwysiadu system asesu newydd yr awdurdod lleol. Mae'r staff yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae argymhellion yr awdurdod lleol ar sut i wella'r hunanarfarnu, trwy raddio gwaith y lleoliad yn erbyn meini prawf penodol, wedi effeithio'n dda ar ansawdd y profiadau dysgu a'r addysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaethau sefydlog yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles y plant. Mae'r staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn gwahodd rhieni i foreau agored i rannu mewn gweithgareddau dyddiol y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am ddigwyddiadau'r lleoliad.

Mae rhieni a gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn ymfalchïo yn y polisi drws agored a'r cyfleoedd i gyfarfod â staff yn ddyddiol. Felly, mae'r berthynas gyda phlant, rhieni a gofalwyr a'r pwyllgor rheoli yn bositif iawn. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ymdeimlad o gymuned sy'n perthyn i'r lleoliad.

Mae cysylltiadau gyda'r ysgol leol wedi'u sefydlu'n gadarn iawn. Mae trefniadau effeithiol a thrwyadl ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin yn elwa'r lleoliad yn fawr, drwy weithredu polisiâu a'r cyngor i'r pwyllgor rheoli. Mae'r cydweithrediad cryf rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol yn fuddiol iawn i ddatblygiad y lleoliad. Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau'n helpu symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu at ddarpariaeth bwrpasol ac arweinyddiaeth effeithiol.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithlon gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am blant ar lafar yn gyson. Maent yn gwybod gyda phwy i gysylltu os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant. Maent yn defnyddio cysylltiadau â'r gymuned leol yn achlysurol i gefnogi dysgu'r plant.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r arweinyddiaeth yn gadarn ac mae'n anelu'n gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae gymuned ddysgu broffesiynol sefydlog o fewn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi addysgu da'r holl staff. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor

rheoli'n llwyddo i sicrhau fod gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau a hyfforddiant priodol.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei adnoddau'n bwrpasol i gefnogi'r dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli dealltwriaeth gadarn o'u cyllideb. Maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn unol â'r targedau ar gyfer gwella yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnydd arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian, oherwydd effaith gadarnhaol y staff ar ddeilliannau'r plant a'r arweinyddiaeth gadarn.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr Arolygydd Cofnodol

Mr Nicholas Jones	Arolygydd Cofnodol
-------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.